

Oriel Mission

Cyfarwyddwr Creadigol

Cyflwyniad

Mae Oriel Mission, Abertawe'n chwilio am Gyfarwyddwr Creadigol i helpu datblygu ac arwain rhaglen gyffrous ac arloesol o ddigwyddiadau a gweithgareddau creadigol.

Cefndir

Mae Oriel Mission mewn adeilad Rhestredig Gradd II yn Ardal Forol Abertawe. Arferai'r adeilad fod yn gapel i forwyr a gynlluniwyd gan Benjamin Bucknall ym 1886 ac mae mewn ardal lle cefnogir crynodiad o weithgareddau diwylliannol gan Ddinas a Sir Abertawe. Agorodd fel oriel gelf ym 1977 o'r enw Swansea Arts Workshop, menter a reolwyd gan grŵp o arlunwyr fel rhan o'r Gymdeithas Arlunwyr a Dylunwyr yng Nghymru. Mae wedi bod yn oriel annibynnol ers 1992, gan fabwysiadu'r enw Oriel Mission. Yn 2003, cafodd yr oriel Gyllid Refeniw gan Gyngor Celfyddydau Cymru ac yn 2011, derbyniodd godiad mewn cyllid.

Mae Oriel Mission yn dangos goreuon y celfyddydau gweledol, celf, crefft a dylunio cymhwysol yn un o'r lleoedd mwyaf neilltuol ar gyfer celf gyfoes yng Nghymru. Mae rhaglen yr arddangosfa'n cynnwys arlunwyr sydd wedi ennill eu plwyf ac sy'n dod i'r amlwg ar draws pob cyfrwng – peintio, cerflunwaith, gosodwaith, ffotograffiaeth a chrefft. Gallai'r rhaglen ac, yn wir, mae'r rhaglen yn cymryd risgiau trwy ddangos arlunwyr sydd heb arddangos o'r blaen a thrwy herio arlunwyr sydd wedi ennill eu plwyf i weithio mewn ffyrdd newydd. Mae'r lle adwerthu'n cynnwys crefftau a chynlluniau cyfoes gan wneuthurwyr a chynllunwyr sy'n dod i'r amlwg, yn ogystal â'r rhai gydag enw da ar raddfa genedlaethol. Mae'r arddangosfa newidiol yn cynnwys cerameg, gwydr, gemwaith a thecstilau.

Mae Oriel Mission yn hwyluso Criw Celf West hefyd, sef Rhaglen Addysg flaenllaw sy'n trefnu rhaglenni Addysg ac Arlunwyr Preswyl. Ffurfia'r rhain ran annatod o rôl yr oriel; sef darparu cyfleoedd i arlunwyr, ac ymgysylltu â'r gymuned gyfan.

Bydd deilydd y swydd yn rheoli tîm sydd ar hyn o bryd yn cynnwys Cydlynnydd Arddangosfa ac Adwerthu, Cydlynnydd Addysg, Cynorthwydd Cyllid, yn ogystal â thîm o wirfoddolwyr

brwdfrydig (gallai'r strwythur staffio hwn fod yn destun newid yn amodol ar adolygiad mewnol). Mae'r holl aelodau staff a'r bwrdd yn 'weithredol' – boed ym mlaen tŷ neu'r tu ôl i'r llenni – ac yn ymddwyn fel pencampwyr ar gyfer athroniaeth unigryw Oriel Mission.

Ein Bwriad:

Arwain y ffordd mewn Celfyddydau Gweledol a Chymhwysol cyfoes yng Nghymru a thu hwnt. Cyflwyno rhaglen arddangosfeydd ac addysg neilltuol ac arloesol; cymryd risgiau celfyddydol; cyfoethogi bywydau pawb sy'n dod i gysylltiad ag Oriel Mission.

Ein Gweledigaeth:

- Bod yn wahaniaethol wrth gyflwyno Celfyddydau Gweledol, Celf a Chrefft Cymhwysol cyfoes.
- Darparu rhaglen ar gyfer dysgu lle gall pawb droi at gelf gyfoes mewn amgylchedd proffesiynol, dan arweiniad y celfyddydau.
- Meithrin safle fel platfform cyfoethogi ar gyfer yr holl unigolion lle gellir gwthio ffiniau confensiynol, cryfhau datblygiad proffesiynol yr unigolyn ar lefel lle mae'n dod i'r amlwg neu wedi ennill ei blwyf.
- Bod yn sefydliad cynaliadwy wrth wraidd cymuned greadigol Abertawe.

Cyflawni'n Bwriad a'n Gweledigaeth:

Cryfhau'n cysylltiadau a gweithio mewn partneriaeth a chydweithredu gyda gwneuthurwyr, arlunwyr a sefydliadau, rydym yn parhau i arloesi a dangos ein harwyddocâd fel caffaeliad diwylliannol rhanbarthol.

Dathlu'n Llwyddiannau:

Rydym yn ffodus o fod yn ardal Marina hanesyddol Abertawe, sydd dafliaid carreg o Amgueddfa Genedlaethol y Glannau ac Amgueddfa Abertawe.

Mae ein harddangosfeydd, rhaglenni dysgu a gwaith ein harlunwyr cyfraniadol yng Nghymru'n elfen bwysig o'r byd celfyddydol yng Nghymru. Dyma rai uchafbwyntiau diweddar:

Fiona Banner a adwaenir hefyd fel The Vanity Press - Buoy's Boys: Roedd Oriol Mission yn falch o gyflwyno gwaith Fiona Banner a adwaenir hefyd fel *The Vanity Press* fel rhan o'r penwythnos *Now the Hero 14-18 | Now There's More* ym mis Medi 2018. Rhoddwyd Banner ar y rhestr fer am Wobr Turner yn 2002 ac yn 2010, cyflwynodd *Harrier a Jaguar* yn Tate Britain ar gyfer Comisiwn Oriolau Duveen.

Portreadodd y ffilm *Buoy's Boys* gyfres o gerfluniau atalnod llawn enfawr yn arnofio uwchben y môr. Cymerodd y cerfluniau enfawr llawn heliwm ffurf atalnodau llawn mewn pum teip – Capitalist, Courier, Bookman, Didot ac Onyx.

Roedd y trac sain ar gyfer y gwaith yn seiliedig ar gân bop Snoopy Vs The Red Baron o 1966. Mae Banner wedi cynhyrchu corff parhaus o waith sy'n gysylltiedig â'r ddau gymeriad hyn ac wedi dychwelyd i'r gân mewn nifer o wahanol berfformiadau byw. Recordiwyd y traciau ar gyfer y darn hwn yn ystod yr ymarferion ar gyfer y perfformiadau hyn: un gyda Viv Albertine (o The Slits yn flaenorol) y cydweithredodd Banner gyda hi ar drefniant cerddorol newydd o'r gân, yn nigwyddiad *The Exquisite Corpse will Drink The Young Wine* a guradwyd gan Banner yng Nghapel Cynulliadol Cymru yn Llundain (2018); y llall gyda Chôr Sir John Cass School yn Eglwys St Andrew by the Wardrobe yn Ninas Llundain.

Rhedodd yr arddangosfa o 22 Medi i 10 Tachwedd 2018.


Language of Clay - Dyma'n prif brosiect cydweithrediadol yr ydym wedi bod yn rhan ohono ers 2016. Cynhaliwyd *Language of Clay: Part One* yn 2016-2017, oedd yn cynnwys arddangosfeydd unigol o waith gan dri artist cerameg yng Nghymru - Anna Noel, Micki Schloessing ac Anne Gibbs. Cafodd y tair arddangosfa eu curadu gan Ceri Jones o Oriol Mission a'u cyflwyno yng Nghanolfan Gelfyddydau Llantarnam Grange, Oriol Mission a Chanolfan Grefftau Rhuthun - y sefydliadau partner, yn ogystal â theithio i leoliadau eraill ar draws Cymru.

Mae *Language of Clay: Part Two* yn parhau â'r thema o ddod â'r tri phartner at ei gilydd mewn prosiect cydweithrediadol. Yn ystod 2018-19, bydd y prosiect yn cynnwys gwaith gan Justine Allison; Ingrid Murphy a Kate Haywood. Unwaith eto, bydd yr arddangosfeydd hyn yn cael eu cyflwyno yn y lleoliadau partner, yn ogystal â theithio i leoliadau ar draws Cymru.

Criw Celf – Mae Oriol Mission wedi bod yn cyflwyno prosiect strategol *Criw Celf* Cyngor Celfyddydau Cymru ers 2014. *Criw Celf* yw'n prif brosiect i ddynodi doniau a meithrin sgiliau yn y grŵp Mwy Abl a Thalentog o bobl ifanc. Gobeithiwn ysbrydoli pobl ifanc i ddatblygu eu potensial creadigol llawn trwy'r prosiect er mwyn gwella'u sgiliau celfyddydol, hyder a sgiliau cymdeithasol, datblygu cyfeillgarwch, ffyrdd newydd o feddwl a gweld y celfyddydau fel gyrfa i'r dyfodol.

Bu ein prosiectau yn hynod lwyddiannus wrth gefnogi arlunwyr sy'n byw yng Nghymru a thu hwnt, gan ddwysáu'r ddadl o gwmpas ymarfer cyfoes ac yng nghydweithrediad y sefydliadau partner.

Strwythur trefniadol presennol*



*Mae'r strwythur staffio presennol yn destun adolygiad.

Telerau ac amodau'r gwasanaeth:

Y Raddfa Gyflog	£30,000 Pro Rata
Hyd y Contract	Mae'r swydd hon yn 0.6 CALI parhaol a 0.2 CALI cyfnod penodedig hyd at ddiwedd mis Awst 2021.
Oriau Contract	32 awr yr wythnos ar sail 0.8 CALI
Symud	Mae'r Oriol yn cynnig pecyn symud y mae modd ei drafod.
Mae pob penodiad newydd yn amodol ar dderbyn geirdaon boddhaol, a chliriadau archwilio collfarnau troseddol a thystiolaeth o gymhwyster i weithio yn y DU.	

Y manteision o weithio i Oriol Mission

Gwyliau blynyddol	22 diwrnod o wyliau blynyddol am hyd at 5 mlynedd o wasanaeth parhaus, gan godi mewn graddfa i 30 diwrnod dros 10 niwrnod o wasanaeth parhaus; ac 8 diwrnod Gŵyl y Banc. Mae'r diwrnodau'n pro rata i staff sy'n gweithio'n rhan-amser.
Pensiwn:	Bydd staff cymwys yn cael eu hymrestru'n awtomatig i The People's Pension. Gweithredwn bensiwn Cyfraniadau Diffiniedig.
Cynefino	Darparwn raglen gynefino gynhwysfawr i groesawu a chyflwyno aelodau staff newydd i'r sefydliad.
Hyfforddiant a datblygiad	Rydym yn ymroi i sicrhau hyfforddiant a datblygiad proffesiynol ein holl weithwyr.
Arferion gwaith cyfeillgar i deuluoedd	Cynigiwn ystod o arferion gweithio cyfeillgar i deuluoedd fel mamolaeth/ tadolaeth, absenoldeb mabwysiadu, gweithio hyblyg a gweithio amser amrywiol.
Undebau llafur	Mae gan aelodau staff yr hawl i berthyn i undeb llafur cofrestredig a chymryd rhan ar unrhyw adeg briodol yng ngweithgareddau'r sefydliad yr ydych chi'n perthyn iddo, gan gynnwys yr hawl i wneud cais am swydd a'i gweithio.

Sut i wneud cais:

Dylai ymgeiswyr lenwi'r Ffurflen Gais. Mae'r ddogfen hon yn rhoi cyfle i chi ddisgrifio sut mae'ch rhinweddau personol, profiad a chymwysterau'n eich gwneud chi'n ymgeisydd addas i'r rôl hon.

Anfonwch eich CV gyda'r ffurflenni cais wedi'i llenwi.

Gellir cyflwyno ceisiadau yn y Gymraeg neu'r Saesneg.

Mae Oriol Mission yn gyflogwr cyfle cyfartal. Croesewir ceisiadau gan bob rhan o'r gymuned.

Bydd yr holl wybodaeth bersonol yn cael ei phrosesu yn unol â'n hysbysiad preifatrwydd sydd ar gael ar ein gwefan. Rhennir y wybodaeth hon gyda'ch caniatâd a bydd yn cael ei rhannu dim ond gyda'r sawl sydd ynghlwm â'r broses recriwtio, oni y byddwch chi llwyddiannus gyda'r rôl, ac yn yr achos hwnnw, bydd yn cael ei chadw gyda'ch cofnod personél, yn unol â'n hatodlenni cadw data.

Anfonwch eich cais gorffenedig drwy e-bost gyda 'Cyfarwyddwr Creadigol Mission' yn y llinell destun. Os oes gennych gwestiynau am y rôl, mae croeso i chi gysylltu â Chadeirydd ein Bwrdd, Ms Caroline Thraves.

Dyma'r cyfeiriad e-bost i gysylltu a chyflwyno: caroline@missiongallery.co.uk

Y dyddiad cau ar gyfer ceisiadau yw: 23:59 o'r gloch ar 29 Mai 2020.

Trefnadau'r cyfweiliad l'w cadarnhau.

Cyfeirnod y swydd: 0001/2020

Oriel Mission

Disgrifiad Swydd

Teitl y Swydd:

Cyfarwyddwr Creadigol – Oriel Mission

Yn atebol i'r:

Cadeirydd a Bwrdd yr Ymddiriedolwyr

Yn gyfrifol am:

Staff a gwirfoddolwyr Oriel Mission

Cyfeirnod y Swydd:

0001/2020

Prif Bwrpas y Swydd:

Symud Oriel Mission yn ei blaen gyda rhaglen o arddangosfeydd cynyddrannol a chreadigol o'r radd flaenaf, a gweithgareddau addysg a dysgu, a roddodd Oriel Mission wrth wraidd y cymunedau mae'n eu gwasanaethu, gan arwain y sefydliad i ddyfodol cynaliadwy.

Bod yn gyfrifol am Weledigaeth Greadigol Oriel Mission o'r rhaglen arddangosfeydd, rhaglen addysg/allgymorth a chadw trosolwg o weithgareddau creu refeniw (siop, codi arian ac ati).

Darparu arweinyddiaeth a rheolaeth gref ac effeithiol ar gyfer staff a gwirfoddolwyr, sy'n eu cefnogi a'u galluogi i gyflwyno gweithgareddau Oriel Mission yn llwyddiannus, wrth reoli newid trawsffurfiol.

Arallgyfeirio a chryfhau gweithgareddau creu incwm Oriel Mission, gan adeiladu lefelau cynaliadwy o gronfeydd.

Disgwyliwn i'r unigolyn iawn fod yn weinyddydd profiadol gyda gwir ddiddordeb a brwdfrydedd am gelf, crefft a hanes celf, celf Gymreig gyfoes, yn ogystal â phrofiad mewn codi arian, rheolaeth ariannol, marchnata a gwerthiant yn y celfyddydau.

Disgwylir i'r Cyfarwyddwr Creadigol hefyd feddu ar sgiliau meithrin perthynas gwych er mwyn creu a meithrin partneriaethau gyda sefydliadau eraill, arlunwyr, cynulleidfaoedd newydd a chyllidwyr.

Dylai fod gan y Cyfarwyddwr Creadigol y gallu i farnu ansawdd, ysbrydoli a meithrin rhagoriaeth mewn mynegiant celfyddydol yn rhaglen yr oriel, arddangosfeydd ac arwain cymuned gelfyddydol Cymru.

Dylai fod gan y Cyfarwyddwr Creadigol sgiliau rheoli digwyddiadau gwych a gallu i 'feddwl yn ehangach' wrth i Oriel Mission chwilio am ffyrdd newydd o ymgysylltu â chynulleidfaoedd cyfredol a newydd, cynyddu ei chwmpas gweithgareddau, creu incwm ac ymestyn y tu hwnt i'w fformat fel oriel.

Bydd disgwyl i'r Cyfarwyddwr Creadigol weithio ochr yn ochr ag aelodau presennol y staff ar dasgau allweddol i ddatblygu a chyflwyno gwahanol ddulliau o godi arian, estyn allan a chreu incwm.

Rhaid i'r Cyfarwyddwr Creadigol fod yn hynod drefnus, gyda'r gallu i weld y darlun mawr, rhoi sylw craff i fanylder, meddu ar y gallu i reoli prosiectau amryfal ar yr un pryd a bodloni dyddiadau cau tynn. Fel unigolyn hyblyg, amrywiol a chreadigol, bydd y Cyfarwyddwr Creadigol yn achub y blaen ac yn cynnig atebion i broblemau ac yn ymateb i heriau'n brydlon ac yn rhagweithiol.

Bydd y Cyfarwyddwr Creadigol yn hynod greadigol, gan ddyfeisio digwyddiadau cyffrous a deniadol ar gyfer yr arddangosfeydd, rhaglenni addysg/estyn allan ac adwerthu mewn cydweithrediad ag aelodau staff presennol er mwyn sicrhau cyfraddau cadw a thwf aelodau'r gynulleidfa a niferoedd yr aelodau.

Bydd angen i'r Cyfarwyddwr Creadigol sicrhau bod arddangosfeydd a digwyddiadau Oriel Mission yn cael eu gwerthfawrogi a'u mwynhau gan bawb.

Mae'r gallu i siarad Cymraeg yn ddymunol iawn ond nid yw'n hanfodol.

Prif Dasgau:

1. Arwain a chyfarwyddo Oriol Mission i adeiladu ar ei phroffil ac enw da unigryw ar raddfa leol, cenedlaethol a rhyngwladol.
2. Darparu arweinyddiaeth a chyfeiriad ysbrydoledig ac effeithiol i raglen, gweithgareddau a gwasanaethau'r oriel.
3. Bod yn gyfrifol am gyflwyniad yr ardaloedd adwerthu ac arddangos a goruchwyllo'u staff.
4. Ymddwyn fel prif hyrwyddwr a phencampwr yr oriel a datblygu a rheoli perthnasoedd a phartneriaethau sy'n cefnogi prif nodau ac amcanion yr oriel.
5. Sefydlu, datblygu a chynnal set eang o berthnasoedd diwylliannol, gwleidyddol, cymunedol, busnes a chyfryngau ar lefelau uwch; yn lleol, yn rhanbarthol, yn genedlaethol ac yn rhyngwladol.
6. Rheoli'r gyllideb a'r gweithrediad o ddydd i ddydd.
7. Sicrhau bod gwaith curadu a gosodwaith y gwaith celf yn yr oriel a'r ardaloedd adwerthu'n cael eu gwneud i'r safonau uchaf.
8. Trefnu ac ysgrifennu datganiadau i'r wasg, yn ogystal â chynnal gwefan a chynnwys cyfryngau cymdeithasol Oriol Mission.
9. Gweithio ochr yn ochr â staff a bwrdd Oriol Mission i geisio cael a gwneud cais am gyllid o ffynonellau newydd ac allanol.
10. Goruchwyllo'r ffyrdd o greu rhaglen weithgareddau amrywiol ac unigryw ochr yn ochr ac o gwmpas prif arddangosfeydd Oriol Mission.
11. Hyrwyddo diwylliant cadarnhaol ac uchelgeisiol trwy ddull hyblyg a chefnogol, gan ysbrydoli ysbryd o uchelgais a mentergarwch.
12. Arwain cynhyrchiant ac adolygu cynlluniau busnes a dogfennau strategol a chynllunio eraill yn flynyddol.
13. Sicrhau cynllunio ariannol effeithlon a dulliau rheoli ariannol effeithiol i'r oriel weithredu o fewn y gyllideb.
14. Bod yn gyfrifol am recriwtio, cynefino a hyfforddi'r holl staff ac ymgymryd â chyfrifoldebau rheoli llinell.
15. Cyfrannu at y ddealltwriaeth o gydraddoldeb ac amrywiaeth, gan gysylltu'r gwaith hwn â chyfeiriad artistig ac ymgysylltiad cyhoeddus amrywiol.
16. Sicrhau bod polisïau a gweithdrefnau perthnasol a statudol yn cael eu gwerthuso a'u gwella'n gyson.
17. Goruchwyllo ffyrdd o ddynodi, datblygu ac ehangu ffynonellau cyllid ac adnoddau er mwyn cynnal a gwella nodau ac amcanion strategol yr oriel.

18. Cysylltu'n agos â'r Cadeirydd ac aelodau'r Bwrdd er mwyn sicrhau bod y tasgau uchod yn cael eu cyflwyno'n effeithiol ac i'r safon uchaf.
19. Unrhyw ddyletswyddau eraill fel y bo'n rhesymol ofynnol gan y Cadeirydd a'r Bwrdd.

Cymwysterau, Sgiliau a Phrofiad angenrheidiol:

- Meddu ar addysg i lefel gradd neu'n uwch mewn celf/ dylunio neu bwnc sy'n berthnasol i'r rôl hon.
- O leiaf tair blynedd o brofiad o arwain mewn sefydliad celfyddydol.
- Profiad o reoli llinell staff ac adolygu ac arfarnu gweithdrefnau.
- Dealltwriaeth wych a gwybodaeth fanwl am gelf a chreffft gyfoes ac ymwybyddiaeth o faterion cyfredol o gwmpas y celfyddydau yng Nghymru a thu hwnt.
- Cofnod wedi'i brofi o weithredu mewn cyd-destun celf a chreffft cyfoes.
- Profiad helaeth o drefnu a rheoli arddangosfa.
- Profiad mewn adrodd i'r Bwrdd a pharatoi materion i'r Bwrdd eu hystyried.
- Profiad wrth baratoi cyllid a chynigion am nawdd.
- Gallu wedi'i brofi i broffilio, adrodd, monitro a rheoli cyllidebau.
- Sgiliau trefniadol a gweinyddol eithriadol.
- Profiad o gynefino a hyfforddi staff.
- Ymrwymiad i Gyfle Cyfartal ac Amrywiaeth Ddiwylliannol.
- Rhaid i chi allu gweithio oriau hyblyg.

Sgiliau Cyfathrebu

- Sgiliau cyfathrebu gwych, ar lafar ac ar bapur – gyda'r cyhoedd, y wasg a chyllidwyr/noddwyr.
- Gallu i uniaethu â grwpiau celf ac ymarferwyr a deall eu hanghenion.
- Sgiliau rhyngpersonol gwych gyda'r gallu i uniaethu â phob lefel o staff a'r cyhoedd.

Oriau gwaith

- Bydd disgwyl i'r Cyfarwyddwr Creadigol weithio 32 awr yr wythnos yn nodweddiadol, fel CALI 0.8. Fel rheol, bydd yr oriau gwaith rhwng 9am a 6pm, o ddydd Llun i ddydd Sul; ond hwyrach y bydd angen gweithio rhai nosweithiau a gwyliau cyhoeddus.

Oriel Mission

Manyleb Person

Ysgrifennwch eich datganiad i'r meini prawf hanfodol a dymunol isod (a-v), gan roi enghreifftiau i ddangos eich addasrwydd i'r rôl.

Hanfodol	Dymunol
Dull Asesu – Ffurflen Gais a Chyfweliad	
Gwybodaeth angenrheidiol	
a) Gwybodaeth ragorol am arfer celf a chrefft gyfoes a dealltwriaeth ragorol ohonynt.	
b) Ymwybyddiaeth o'r materion cyfredol yn ymwneud â'r cyfleoedd a'r heriau ar gyfer y celfyddydau yn y DU ac yn rhyngwladol.	
c) Diddordeb yng ngweledigaeth Oriel Mission a'i dealltwriaeth ohono ac o'r cyddestun ehangach mae'n gweithredu ynddo, yn enwedig ei harwyddocâd yng Nghymru a'i phwysigrwydd i ddiwylliant Cymru.	
d) Dealltwriaeth o'r ffordd y mae gwaith Oriel Mission yn cyfrannu at gynhwysiant cymdeithasol, democratiaeth ddiwylliannol, cymdeithas sifil, iechyd a lles, datblygu celfyddydol, addysg a dysgu gydol oes.	
Profiad angenrheidiol	
e) Profiad amlwg o arwain mewn sefydliad celfyddydol / diwylliannol	k) Profiad o weithio mewn addysg ffurfiol neu amgylchedd dysgu gydol oes.
f) Profiad wedi'i brofi mewn curadu, trefnu neu reoli rhaglenni arddangos.	
g) Profiad wedi'i brofi o broffilio a rheoli cyllidebau.	
h) Profiad amlwg o ysbrydoli, arwain a rheoli tîm o bobl trwy newid.	

i) Profiad amlwg o weithio gydag ystod o gymunedau i sicrhau bod eu lleisiau'n cael eu clywed a'u syniadau'n cael eu hymgorffori yng nghynlluniau'r sefydliad.	
j) Profiad o rwydweithio proffesiynol a chreu cyfleoedd codi arian.	
Cymwysterau Academaidd / Safon Addysg	
l) Wedi cael addysg i lefel gradd neu'n uwch mewn celf/dylunio, rheoli'r celfyddydau, neu gwrs cysylltiedig arall.	m) Cymhwyster perthnasol mewn rheolaeth ariannol a rheoli/arweinyddiaeth.
Sgiliau angenrheidiol	
n) Gallu wedi'i brofi i gymryd perchnogaeth o dasgau a dirprwyo'n effeithiol.	p) Y gallu i gyfathrebu yn y Gymraeg
o) Gallu cymathu gwybodaeth gymhleth gan ddefnyddio data ansoddol a meintioli. Gallu wedi'i brofi i gymryd perchnogaeth o dasgau a dirprwyo'n effeithiol.	
Ffactorau personol angenrheidiol	
q) Yn feddyliwr strategol.	
r) Yn uchel eich cymhelliant a hunanymwybodol.	
s) Yn wrandawr a chyfrannwr cadarnhaol - yn berson pobl, yn sensitif ac yn ymatebol i sefyllfaoedd.	
t) Yn ffurfio perthnasoedd cadarnhaol; yn rhannu gwybodaeth ac arbenigedd; yn gwrtais, yn ymatebol ac yn agos atoch; yn derbyn cyfrifoldeb.	
u) Yn hyblyg, yn agored i newid a syniadau newydd, yn cynnig atebion o wynebu rhwystrau neu broblemau.	

v) Yn bwyllog ac yn rhesymol yn wyneb heriau, yn fodlon herio pobl eraill pan fo angen, yn gwranddo ar ystod o safbwyntiau a thystiolaeth ac yn eu gwerthuso wrth ffurfio blaenoriaethau a strategaethau.	
---	--

Cymhwysedau:

Cymhwysedd Craidd	Ymddygiad enghreifftiol
Gweithio'n gadarnhaol gyda phobl eraill	Yn meithrin perthnasoedd adeiladol gyda staff eraill ar bob lefel o'r sefydliad, a gyda phartneriaid allanol.
Ymrwymiad i gynulleidfaoedd, cwsmeriaid a defnyddwyr	Yn annog ac yn sicrhau bod rhanddeiliaid a defnyddwyr mewnol ac allanol yn ganolog i waith Oriel Mission.
Ymrwymiad i amrywiaeth a chyfrifoldeb cymdeithasol	Yn datblygu dealltwriaeth bersonol o faterion yn ymwneud ag amrywiaeth, cynhwysiant, cyfrifoldeb cymdeithasol a chynaliadwyedd amgylcheddol.
Cofleidio dysgu, newid a chreadigedd	Yn gwerthuso'r amgylchedd ehangach ac yn deall sut mae'n rhaid i Oriel Mission ymateb.
Cyflwyno canlyniadau effeithiol	Yn dangos ffocws cryf ar ganlyniadau ac yn achub y blaen wrth sefydlu sefydliad sy'n cael ei gyfeirio gan ganlyniadau